WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Adroddiad ar yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol – **Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru**


Blwyddyn archwilio: 2017-18

Dyddiad cyhoeddi: Awst 2018

Cyfeirnod y ddogfen: 758A2018-19

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

# Cynnwys

Mae’r Archwilydd Cyffredinol yn debygol o gyhoeddi adroddiad archwilio diamod ar eich datganiadau ariannol, yn ddibynnol ar gadarnhad o effaith ariannol y gordaliadau pensiwn ar y datganiadau ariannol. Mae rhai materion i’ch hysbysu amdanynt cyn eu cymeradwyo.


Adroddiad cryno

Cyflwyniad 4

Statws yr archwiliad 4

Adroddiad archwilio arfaethedig 4

Materion pwysig sy’n deillio o’r archwiliad 5

Argymhellion sy’n deillio o’n gwaith archwilio ariannol ar gyfer 2016-17 9

Argymhellion sy’n deillio o’n gwaith archwilio ariannol ar gyfer 2017-18 12

Annibyniaeth a gwrthrychedd 12

Atodiadau

Atodiad 1 – Llythyr Sylwadau Terfynol 13

Atodiad 2 – adroddiad archwilio arfaethedig yr Archwilydd Cyffredinol i Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru 16

Atodiad 3 – crynodeb o’r cywiriadau a wnaed i’r datganiadau ariannol drafft y dylid tynnu sylw Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru atynt 20

Atodiad 4 – argymhellion yn deillio o’n gwaith archwilio ar gyfer 2017-18 24

# Adroddiad cryno

## Cyflwyniad

1 Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gyfrifol am roi barn ynghylch pa un a yw'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa ariannol Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) ar 31 Mawrth 2018 a'i incwm a'i wariant ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny.

2 Nid ydym yn ceisio cael sicrwydd llwyr bod y datganiadau ariannol wedi'u datgan yn gywir, ond rydym yn mabwysiadu'r cysyniad o berthnasedd. Wrth gynllunio a chynnal yr archwiliad, rydym yn ceisio nodi camddatganiadau perthnasol yn eich datganiadau ariannol, hynny yw, y rhai hynny a allai gamarwain rhywun sy'n darllen y cyfrifon.

3 Y swm meintiol a ddefnyddiwn i farnu bod camddatganiadau o'r fath yn berthnasol yw £0.966 miliwn i'r Awdurdod a £0.154 miliwn i Gronfa Bensiwn y Diffoddwyr Tân. Gall materion ansoddol penodol megis gofynion cyfreithiol a gofynion rheoleiddio a sensitifrwydd gwleidyddol hefyd effeithio ar b'un a fernir bod eitem yn berthnasol.

4 Mae Safon Archwilio Ryngwladol (ISA) 260 yn ei gwneud yn ofynnol i ni gofnodi rhai materion sy'n deillio o'r archwiliad o'r datganiadau ariannol i'r sawl sy'n gyfrifol am lywodraethu corff mewn da bryd i gymryd camau priodol.

5 Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu, er mwyn eu hystyried, y materion sy'n deillio o'r archwiliad o ddatganiadau ariannol yr Awdurdod, ar gyfer 2017-18, y mae angen cyflwyno adroddiad arnynt o dan ISA 260.

## Statws yr archwiliad

6 Cawsom y datganiadau ariannol drafft ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2018 ar 1 Mehefin 2018, sydd ymhell cyn y terfyn amser statudol, sef 30 Mehefin 2018. Rydym bellach wedi cwblhau'r gwaith archwilio i raddau helaeth. Mae un mater yn weddill sy'n ymwneud â chadarnhad effaith ariannol y gordaliadau pensiwn ar y datganiadau ariannol, o ganlyniad i gysidro a chadarnhad ôl-weithredol yr Awdurdod, ym Mawrth 2018, o Orchymyn Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) 2014 (Newid), sydd angen ei gwblhau. Rwy'n gwneud sylwadau pellach ar y mater hwn ym mharagraffau 32 a 37.

7 Rydym yn cyflwyno adroddiad i chi ar y materion pwysicaf sy'n deillio o'r archwiliad, y credwn fod yn rhaid i chi eu hystyried cyn cymeradwyo'r datganiadau ariannol. Mae'r tîm archwilio eisoes wedi trafod y materion hyn â Mr Ken Finch, y Trysorydd.

## Adroddiad archwilio arfaethedig

8 Yn seiliedig ar y gwaith sydd wedi ei gwblhau mae'n debygol mai bwriad yr Archwilydd Cyffredinol yw cyhoeddi adroddiad archwilio diamod ar y datganiadau ariannol, oherwydd ein bod yn rhagweld na fydd gwerth y gordaliadau pensiwn yn

faterol i’r datganiadau ariannol. Fodd bynag, mae hyn yn ddibynnol ar gadarnhad terfynol ac rydym yn gweithio yn agos gyda swyddogion er mwyn cael y gwybodaeth angenrheidol.

9 Unwaith mae hyn wedi ei gwblhau, rydym yn disgwyl i chi ddarparu Llythyr Sylwadau i ni yn seiliedig ar yr hyn a nodir yn Atodiad 1.

10 Amlinellir yr adroddiad archwilio arfaethedig yn Atodiad 2.

11 Tra ein bod yn rhagweld y byddwn yn medru cyhoeddi barn ar y datganiadau ariannol rydym yn cysidro yn gryf y bydd ein barn yn cynnwys pwyslais ar y mater o ordaliadau pensiwn.

12 Er hyn, ni rydym yn medru cau'r archwiliad ar hyn o bryd nac ychwaith cyhoeddi'r dystysgrif ar gyfer 2017-18 oherwydd ein hymholiadau agored ar faterion cyfreithiol yn ymwneud â chysidro a chadarnhad ôl-weithredol yr Awdurdod o Orchymyn Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) 2014 (Newid), sydd angen ei gwblhau.

# Materion pwysig sy’n deillio o’r archwiliad

## Camddatganiadau heb eu cywiro

13 Rydym yn trafod isod dau gamddatganiad a adnabuwyd yn y datganiadau ariannol sydd wedi cael eu trafod gyda rheolwyr ond sydd yn parhau i fod heb eu cywiro, rydym yn gofyn iddynt gael eu cywiro. Os yr ydych yn penderfynnu peidio cywiro’r camddatganiadau, rydym yn gofyn i chi ddarparu rhesymau am beidio cywiro.

### Ar gyfer rhan helaeth o asedau anniriaethol a dderbyniwyd cyn diwedd y flwyddyn nid oedd cronniad wedi cael ei roi yn y flwyddyn ariannol gywir ar eu cyfer.

14 Derbyniwyd anfoneb ar gyfer asedau TG gwerth £134,000 cyn diwedd y flwyddyn ac fe’i talwyd ym mis Ebrill 2018. Fe wnaeth trafodaethau gyda swyddogion perthnasol sefydlu bod yr asedau o dan sylw wedi cael eu gosod dros gyfnod estynedig oedd yn cynnwys diwedd y flwyddyn, ond bod rhan helaeth yr anfoneb yn perthyn i’r flwyddyn flaenorol ac y dylid bod wedi cronni ar ei chyfer a’i chydnabod yn y datganiadau ariannol.

### Mae’r grant ychwanegol derbyniadwy sy’n cael ei ddangos yng Nghyfrif Cronfa Bensiwn Diffoddwyr Tân wedi ei orddatgan o £27,000

15 Mae rhandaliad grant ychwanegol gan Lywodraeth Cymru wedi cael ei gam godio fel grant refeniw yng nghyfrifon yr Awdurdod. Fel canlyniad, mae’r arian sy’n ddyledus gan Llywodraeth Cymru yng Nghyfrif Cronfa Bensiwn y Diffoddwyr Tân wedi cael ei orddatgan.

## Camddatganiadau a gywirwyd

16 Mae camddatganiadau a gywirwyd gan y rheolwyr, ond yr ystyriwn y dylid tynnu eich sylw atynt gan eu bod yn berthnasol i'ch cyfrifoldebau mewn perthynas â'r broses o gyflwyno adroddiadau ariannol. Fe'u nodir gydag esboniadau yn Atodiad 3.

## Materion pwysig eraill sy'n deillio o'r archwiliad

17 Fel rhan o'r archwiliad, rydym yn ystyried nifer o faterion ansoddol a meintiol sy'n berthnasol i'r cyfrifon ac yn cyflwyno adroddiad i chi ar unrhyw faterion o bwys sy'n codi. Nid oedd unrhyw faterion yn codi yn y meysydd hyn eleni:

Mae gennym rai pryderon o hyd ynglŷn â'r agweddau ansoddol ar eich arferion cyfrifyddu ac adroddiadau ariannol.

Er gwaethaf ein hargymhellion blaenorol erys nifer o broblemau o hyd gyda digonolrwydd y gofrestr asedau.

18 Mae'r gofrestr asedau, a gynhelir ar daenlen, wedi cael ei chymhlethu'n ddiangen, ac mae'n cynnwys nifer fawr o daflenni gwaith. Er gwaethaf argymhellion blaenorol, mae'n methu o hyd â dal digon o wybodaeth ariannol ac anariannol, cyfredol a hanesyddol, i ategu cofnodion cyfrifyddu penodol.

19 Hefyd, mae'r manylion yn y gofrestr asedau yn annigonol o hyd, mewn perthynas â chyfarpar gweithredol a chyfarpar TG a brynwyd cyn 2017-18, er mwyn nodi asedau unigol neu grwpiau o asedau.

20 Efallai y dylai'r Awdurdod ystyried defnyddio system fwy ffurfiol ar gyfer ei gofrestr asedau.

Nid yw'r driniaeth gyfrifyddu ar gyfer gwaredu asedau yn cydymffurfio â'r Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Llywodraeth Leol

21 Mae'r Awdurdod yn cyflymu dibrisiant yn ystod y flwyddyn waredu, a hynny'n anghywir, er mwyn dibrisio asedau i ddim gwerth llyfr net a thrin yr enillion fel ennill o werthu ased. Nid yw hyn yn cydymffurfio â'r Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Llywodraeth Leol wrth gyfrifo am yr enillion/colledion o waredu asedau.

Roedd rhai prif ddatganiadau wedi cael eu paratoi'n anghywir.

22 Roedd y datganiad am y llif arian parod a'r symudiad mewn cronfeydd wrth gefn wedi'i baratoi'n anghywir ac roedd yn cynnwys addasiadau nad oeddent yn berthnasol i sicrhau bod y datganiadau wedi'u mantoli. Mae'r prif ddatganiadau hyn yn ddatganiadau hanfodol sy'n rhoi sicrwydd ynglŷn â chywirdeb y datganiadau ariannol cyffredinol ac felly mae'n hollbwysig eu bod yn cael eu paratoi'n gywir.

### Mae cyfrifyddu ar gyfer incwm grant yn achos pryder o hyd

23 Er na ddaethom ar draws cymaint o anawsterau wrth archwilio incwm a gwariant grant eleni, erys yn bryder o hyd bod gweithgarwch trafodol yn cael ei gynnal yng nghyfrifon daliannol y fantolen, yn hytrach nag yn y cyfrif refeniw. O ganlyniad, mae angen cofnodion cyfrifyddu ar ddiwedd y flwyddyn er mwyn sicrhau bod y datganiadau ariannol yn adlewyrchu'r gweithgarwch.

24 Rydym wedi argymell o'r blaen y dylai'r Awdurdod newid y ffordd y mae'n gweithredu yn y maes hwn, y mae'r Awdurdod wedi bod yn amharod i'w wneud. Byddem yn annog yr Awdurdod i edrych ar hyn eto er mwyn ceisio cael gwell dull o reoli a chyfrifyddu am y gweithgareddau hyn. Byddai hyn yn osgoi cofnodion cyfrifyddu a chysoni diangen rhwng y cyfrif daliannol a'r datganiadau ariannol.

### Unwaith eto, daethom ar draws anawsterau yn ystod yr archwiliad, sy'n dal i fod yn achos pryder am y bydd yr amserlen ar gyfer paratoi, archwilio a chyhoeddi'r cyfrifon dipyn yn gynt ac yn fyrrach o 2018-19

25 Nid oedd cyfres gynhwysfawr o bapurau gwaith ar gael i ni ar ddechrau'r archwiliad. Darparwyd papurau gwaith yn unigol ar gais ac roeddent yn aml o ansawdd gwael ac yn anghyflawn ac roedd angen i ni ofyn am esboniad ac, mewn rhai achosion, fwy o waith a gwybodaeth ategol. Yn aml, arweiniodd hyn at oedi wrth gwblhau'r gwaith archwilio.

26 Roedd yn siomedig nodi hefyd mai cyfyngedig fu'r dysgu o archwiliad y flwyddyn flaenorol, gyda nifer o wallau, gan arwain at addasiadau archwilio yn digwydd eto.

27 Fel y gwyddoch, mae'r Awdurdod yn wynebu terfynau amser diwygiedig ar gyfer paratoi a chyhoeddi'r datganiadau ariannol ar gyfer 2018-19 ymlaen. Mae'n rhaid i'r cyfrifon gael eu paratoi erbyn 31 Mai (fis yn llai na'r sefyllfa bresennol) a'u cyhoeddi erbyn 31 Gorffennaf (ddeufis yn llai na'r sefyllfa bresennol).

28 Er ei bod yn galonogol bod yr Awdurdod wedi darparu'r cyfrifon drafft ar 1 Mehefin 2018, er mwyn ateb yr heriau sy'n gysylltiedig â'r newid yn yr amserlen, mae'n hanfodol bod ansawdd y cyfrifon drafft dipyn yn well a bod papurau gwaith o ansawdd da sy'n ategu'r datganiadau ariannol yn glir ac sy'n hunanesboniadol i rywun sy'n gyfarwydd â chyfrifyddu.

29 Yn seiliedig ar ansawdd datganiadau drafft 2017-18 ac annigonolrwydd y papurau gwaith ategol a ddarparwyd, o ran argaeledd ac ansawdd, yn ein barn ni, ni fyddai'r Awdurdod yn cydymffurfio â'r amserlen paratoi a chyhoeddi yn 2018-19.

30 Byddwn yn gweithio gyda'r Awdurdod i ddatblygu dogfen fanwl ar yr hyn i'w gyflawni ar gyfer archwiliad ynghyd ag amserlen er mwyn ei alluogi i gydymffurfio â therfynau amser heriol y flwyddyn nesaf.

31 Rydym hefyd yn cydnabod mai dim ond yn ddiweddar y penodwyd y Prif Swyddog Cynorthwyol, Cyllid ac Adnoddau, ac rydym yn hyderus y gallwn weithio gyda'n gilydd yn adeiladol i gyflawni hyn.

## Mae un mater pwysig, sydd yn gysylltiedig â Chronfa Bensiwn y Diffoddwyr Tân rydym yn ei drafod gyda'r rheolwyr

32 Daeth Gorchymyn Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) 2014 (Newid) i rym ar 31 Rhagfyr 2014, roedd yn gwneud newidiadau ôl-weithredol o Orffennaf 1af 2013 i Orchymyn Cronfa Bensiwn y Diffoddwyr Tân 1992.

33 Yn ei hanfod, roedd y newid yn cyflwyno pwerau i'r Awdurdod i drin dyrchafiadau dros dro fel buddion pensiwn ychwanegol yn dod i rym o'r 1af o Orffennaf 2013. Er hyn, daeth i'r amlwg yn ystod cyfarfod Bwrdd Cynghori'r Cynllun a gynhaliwyd ar 27 o Dachwedd 2017 bod yr Awdurdod heb weithredu'r pwerau hyn, hynny yw, doedd aelodau'r Awdurdod heb ystyried mabwysiadu'r newid a ganiateir gan Orchymyn 2014. Fe wnaeth yr Awdurdod barhau, o Orffenaf y 1af 2013, i weithredu'r rheoliadau blaenorol (oedd yn caniatau i gyflog gorau 3 blynedd olaf gyrfau gael ei ddefnyddio ar gyfer y cyfrifiad cyflog terfynnol) ac felly roedd hawliadau pensiwn, ar gyfer achosion perthnasol, wedi cael eu cam-gyfrifo ac wedi cael eu talu yn groes i'r rheoliadau pensiwn.

34 Ym Mawrth 2018, fe wnaeth yr Awdurdod benderfynnu trin dyrchafiadau dros dro fel buddion pensiwn ychwanegol, ar gyfer rhai grwpiau o staff, o'r 1af o Orffennaf 2018 ( yn unol â'r gorchymyn newid). Fe wnaeth yr Awdurdod hefyd wneud y penderfyniad i weithredu'r rheoliadau blaenorol i'r rhai oedd yn ymddeol o fewn 3 blynedd i'r dyddiad gweithredu (1af o Orffennaf 2018), ac i beidio ôl-weithredu y newidiadau. Er hyn, mae yna oblygiadau ariannol i beidio ôl-weithredu'r newidiadau oherwydd bydd rhai pensiynau wedi neu yn cael eu selio ar dâl pensiwn chwyddedig. Mae yna bedwar grŵp o ddiffoddwyr tân sydd yn cael eu heffeithio.

35 Nid oedd yr adroddiad (Buddion ychwanegol Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân) a gyflwynwyd i'r Awdurdod ar 19 o Fawrth 2018 nac ychwaith munudau'r cyfarfod hwnnw yn esbonio yn glir yr effaith ar y pedwar grŵp o ddiffoddwyr tân fyddai'n cael eu heffeithio, mae hi felly yn aneglur i ba raddau roedd aelodau wedi deall effaith y newid pan oeddynt yn gwneud eu penderfyniad.

36 Ymhellach, gan fod cost net Cronfa Bensiwn y Diffoddwyr Tân (CBDT) yn syrthio ar Lywodraeth Cymru, a dim yr Awdurdod, mae hi'n aneglur os oedd Llywodraeth Cymru yn ymwybodol o effaith ariannol penderfyniad yr Awdurdod ar ei gyllideb.

37 Yn seiliedig ar y gwaith rydym wedi ei gwblhau hyd heddiw, rydym yn rhagweld na fydd yr effaith ar CBDT a datganiadau ariannol yr Awdurdod yn faterol i'r datganiadau, ond mae hyn dal yn ddibynnol ar gadarnhad terfynnol. Mae ganddom ni hefyd bryderon ynglŷn ag agweddau cyfreithiol penderfyniad yr Awdurdod ac mae gwaith archwilio pellach yn ofynnol, rydym wedi gofyn am gyngor cyfreithiol ar y mater yma. O ganlyniad i hyn ni wnawn gyhoeddi'r dystysgrif archwilio i gau'r archwiliad nes bod y gwaith yma wedi ei gwblhau.

## Nid oes unrhyw faterion eraill y mae angen i ni eich hysbysu amdanynt

38 Nid oes unrhyw faterion eraill i'ch hysbysu amdanynt. Yn benodol:

- nid oes unrhyw faterion eraill sy'n arwyddocaol i'r gwaith o oruchwylio'r broses o gyflwyno adroddiadau ariannol y mae angen i ni eich hysbysu amdanynt;
- ni nodwyd unrhyw wendidau perthnasol yn eich rheolaethau mewnol nad ydym wedi eich hysbysu amdanynt eisoes; ac
- nid oes unrhyw faterion eraill y mae'n ofynnol iddynt, yn ôl safonau archwilio, gael eu cyfleu i'r sawl sy'n gyfrifol am lywodraethu.

# Argymhellion sy'n deillio o'n gwaith archwilio ariannol ar gyfer 2016-17

39 Rydym yn amlinellu'r holl argymhellion sy'n deillio o'n harchwiliad yn 2016-17 ynghyd â chrynodeb o'r camau gweithredu a gymerwyd gan reolwyr yn ystod 2017-18. Rydym wedi gwneud gwaith dilynol ar y rhain fel rhan o archwiliad 2017-18 ac yn crynhoi ein canfyddiadau. Er bod rhai gwelliannau wedi cael eu gwneud, mae'n siomedig nodi nad yw'r Awdurdod wedi mynd i'r afael â llawer o'r argymhellion ac o ganlyniad uniongyrchol i hynny bu'n rhaid i'r cyfrifon drafft gael eu diwygio'n helaeth unwaith eto.

Arddangosyn 1: Argymhellion sy'n deillio o'n gwaith archwilio ariannol ar gyfer 2016-17

| Argymhelliad | Ymateb Rheolwyr ac Archwilio |
|---|---|
| **Nid oedd y cyfrifon drafft wedi cael eu hadolygu'n ddigonol o ran eu hansawdd**<br>Dylai'r Awdurdod gyflwyno adolygiad ansawdd cadarn o'r cyfrif sydd i'w gyflwyno i ni ei archwilio sy'n cael ei ddogfennu'n glir, ei lofnodi gan Drysorydd yr Awdurdod, a'i rannu gyda ni cyn archwilio'r cyfrifon. | **Ymateb Rheolwyr**<br>Caiff cynllun gweithredu ei baratoi er mwyn mynd i'r afael â'r mater hwn, gan gynnwys nodi sut y caiff dyletswyddau eu neilltuo.<br>Dyddiad gweithredu: Mawrth 2018<br>**Ymateb Archwilio**<br>Rydym ar ddeall i broses adolygu ansawdd gael ei chyflwyno. Fodd bynnag, nid oedd yn ddigon cadarn am fod y datganiadau drafft yn cynnwys nifer o wallau amlwg, er enghraifft, roedd cymharwyr 2016-17 wedi'u camddatgan mewn mannau. |

| Argymhelliad | Ymateb Rheolwyr ac Archwilio |
| --- | --- |
| **Mae angen gwella ansawdd papurau gwaith**<br>Dylai'r Awdurdod baratoi papurau gwaith o ansawdd digonol sy'n ategu'r datganiadau ariannol yn glir ac sy'n hunanesboniadol i rywun sy'n gyfarwydd â chyfrifyddu. Dylai'r Awdurdod hefyd sicrhau nad yw trafodion cyfrifyddu yn cael eu gwneud yn net yn amhriodol a bod y driniaeth gyfrifyddu yn cydymffurfio â'r Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Llywodraeth Leol. | **Ymateb Rheolwyr**<br>Bydd y staff yn cael cyfarwyddyd yn unol â hynny.<br>Dyddiad gweithredu: Mawrth 2018<br>**Ymateb Archwilio**<br>Rydym yn cydnabod bod rhai papurau gwaith wedi cael eu newid ers y flwyddyn flaenorol. Fodd bynnag, mae angen gwella llawer o'r papurau gwaith o hyd. Mewn rhai achosion, nid yw'r papurau gwaith angenrheidiol wedi cael eu paratoi, maent yn anghyflawn a/neu mae angen cael esboniad a rhagor o wybodaeth ategol i'w deall. O ganlyniad, collwyd amser yn ystod y cyfnod archwilio tra'n aros i ragor o waith gael ei gwblhau. |
| **Mae angen gwella prosesu cyfathrebu a chydgysylltu rhwng staff cyllid yr Awdurdod a staff cyllid Conwy**<br>Dylai'r Awdurdod sicrhau bod pob aelod perthnasol o'r staff cyllid yn deall sut mae ei waith yn gorgyffwrdd fel bod y cyfrifon blynyddol a'r cofnodion cyfrifyddu sylfaenol yn cael eu cadw'n gywir. | **Ymateb Rheolwyr**<br>Bydd y staff yn cael cyfarwyddyd yn unol â hynny.<br>Dyddiad gweithredu: Mawrth 2018<br>**Ymateb Archwilio**<br>Parhawyd i ddod o hyd i enghreifftiau lle gwelsom fod diffyg dealltwriaeth ynglŷn â rolau a chyfrifoldebau. |
| **Dadansoddiad annigonol o asedau cyfarpar unigol yn y gofrestr asedau**<br>Dylai'r Awdurdod ddiwygio ei gofrestr asedau i gynnwys asedau ar lefel unigol neu grŵp, er mwyn sicrhau y gellir eu hadnabod yn hawdd a sicrhau bod y gofrestr asedau yn gyson â'r cofnodion adrannol. | **Ymateb Rheolwyr**<br>Caiff cynllun gwaith ei baratoi er mwyn mynd i'r afael â'r mater hwn.<br>Dyddiad gweithredu: Mawrth 2018<br>**Ymateb Archwilio**<br>Mae'r Awdurdod wedi mynd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn rhannol ar gyfer yr asedau a brynwyd yn 2017-18 ond nid ar gyfer yr asedau a brynwyd cyn hyn. |
| **Nid yw asedau TG wedi cael eu dosbarthu'n gywir rhwng asedau diriaethol ac anniriaethol**<br>Ynghyd ag argymhelliad 4 (uchod), dylai'r Awdurdod adolygu pob ased TG er mwyn sicrhau ei fod wedi'i ddosbarthu'n briodol yn ased diriaethol neu'n ased anniriaethol. | **Ymateb Rheolwyr**<br>Caiff adolygiad ei gynnal.<br>Dyddiad gweithredu: Mawrth 2018<br>**Ymateb Archwilio**<br>Mae'r argymhelliad hwn wedi cael ei weithredu. |

| Argymhelliad | Ymateb Rheolwyr ac Archwilio |
|---|---|
| **Diffyg proses gadarn i sicrhau y rhoddir cyfrif am waredu asedau yn y gofrestr asedau**<br>Dylai'r Awdurdod roi proses gadarn ar waith fel y bydd yn ofynnol i bob aelod o staff hysbysu staff cyllid yn brydlon am bob ased sydd wedi cael ei waredu. | **Ymateb Rheolwyr**<br>Caiff hyn ei ymgorffori mewn cynlluniau gwaith ac adolygiadau eraill.<br>Dyddiad gweithredu: Mawrth 2018<br>**Ymateb Archwilio**<br>Mae'r argymhelliad hwn wedi cael ei weithredu. |
| **Ni roddir cyfrif am incwm grant na'r gwariant cysylltiedig yn y datganiadau ariannol**<br>Dylai'r Awdurdod bennu codau refeniw priodol i gyfrif am incwm a gwariant grant yn gywir a sicrhau bod y trafodion ariannol yn cael eu cysoni'n briodol â hawliadau grant. | **Ymateb Rheolwyr**<br>Mae'r dull o reoli mentrau sy'n ymwneud â grant yn cael ei ddeall yn dda gan y staff dan sylw nad ydynt yn gweithio ym maes cyllid fel arfer. Bydd yn rhaid i unrhyw newid ystyried hyn. Mae mater cysoni yn fater y bydd angen mynd i'r afael ag ef ochr yn ochr â gwaith cynllunio ac adolygiadau eraill a grybwyllwyd eisoes.<br>Dyddiad gweithredu: Mawrth 2018<br>**Ymateb Archwilio**<br>Ymdriniwyd â'r argymhelliad hwn yn rhannol. |
| **Nid yw trafodion cyfrifyddu IAS19 wedi cael eu hadlewyrchu yn y cyfriflyfr ariannol**<br>Dylai'r Awdurdod sicrhau ei fod yn cyfrif am drafodion IAS19 yn y cyfriflyfr ariannol. | **Ymateb Rheolwyr**<br>Bydd y staff yn cael cyfarwyddyd yn unol â hynny.<br>Dyddiad gweithredu: Mawrth 2018<br>**Ymateb Archwilio**<br>Cyfrifir am drafodion IAS19 yn y cyfriflyfr ariannol yn gywir bellach. |
| **Mae angen cynllunio ar gyfer yr amserlen ddiwygiedig ar gyfer paratoi, archwilio a chyhoeddi cyfrifon a gaiff ei chyflwyno yn 2018-19**<br>Dylai'r Awdurdod ddatblygu cynllun prosiect cynhwysfawr i nodi tasgau allweddol a rhyngddibyniaethau'r broses o baratoi ac archwilio'r cyfrifon, a nodi'r gwelliannau sydd eu hangen ar gyfer yr amserlen gynharach. | **Ymateb Rheolwyr**<br>Caiff cynllun prosiect ei baratoi er mwyn mynd i'r afael â'r mater hwn.<br>Dyddiad gweithredu: Mawrth 2018<br>**Ymateb Archwilio**<br>Nid ydym wedi gweld cynllun prosiect manwl eto. Roedd yn gadarnhaol nodi bod y cyfrifon drafft wedi'u cyflwyno i'w harchwilio ar 1 Mehefin 2018, ond mae angen gwneud cryn dipyn o waith o hyd i sicrhau bod y cyfrifon yn cael eu hategu'n llawn gan bapurau gwaith o ansawdd da ar yr un pryd. |

| Argymhelliad | Ymateb Rheolwyr ac Archwilio |
|---|---|
| **Mae gweithredoedd teitl tir ac adeiladau'r Awdurdod yn aml yn enw cyrff rhagflaenol ac nid ydynt wedi cael eu cofrestru â'r Gofrestrfa Tir.**<br>Dylai'r Awdurdod gofrestru ei berchenogaeth o bob darn o dir ac adeilad perthnasol â'r Gofrestrfa Tir. | **Ymateb Rheolwyr**<br>Caiff prosiect ei weithredu.<br>Dyddiad gweithredu: mor fuan â phosibl (nodwyd ym mis Tachwedd 2017)<br>**Ymateb Archwilio**<br>Rydym wedi gweld tystiolaeth bod rhai trafodaethau cynnar wedi cael eu cynnal mewn perthynas â hyn, ond nid oedd wedi'i gwblhau ar adeg yr archwiliad. |
| **Mae ceisiadau am ddatganiadau ynglŷn â phartïon cysylltiedig yn tybio bod yr unigolyn yn meddu ar wybodaeth nad oes ganddo/ganddi o bosibl, sy'n peri'r risg na chaiff datganiadau eu gwneud o bosibl.**<br>Dylai'r Awdurdod ddiwygio ei geisiadau am ddatganiadau ynglŷn â phartïon cysylltiedig a gofyn i unigolion ddatgan buddiannau perthnasol. | **Ymateb Rheolwyr**<br>Caiff y newid hwn ei roi ar waith.<br>Dyddiad gweithredu: Rhagfyr 2017<br>**Ymateb Archwilio**<br>Mae'r newid hwn wedi cael ei roi ar waith. |

## Argymhellion sy'n deillio o'n gwaith archwilio ariannol ar gyfer 2017-18

40 Amlinellir yr argymhellion sy'n deillio o'n gwaith archwilio ar gyfer 2017-18 yn Atodiad 4. Mae'r rheolwyr wedi ymateb iddynt a byddwn yn gwneud gwaith dilynol ar y cynnydd sydd wedi'i wneud yn ystod archwiliad y flwyddyn nesaf. Os na fydd unrhyw gamau gweithredu wedi cael eu cymryd, byddwn yn parhau i fonitro cynnydd ac yn cyflwyno adroddiad arno i chi yn adroddiad y flwyddyn nesaf.

## Annibyniaeth a gwrthrychedd

41 Fel rhan o'r broses derfynol, mae'n ofynnol i ni roi sylwadau i chi ynghylch ein hannibyniaeth.

42 Rydym wedi cydymffurfio â safonau moesegol ac, yn ein barn broffesiynol, rydym yn annibynnol ac ni chaiff ein gwrthrychedd ei beryglu. Nid oes unrhyw gydberthnasau rhwng Swyddfa Archwilio Cymru a'r Awdurdod sy'n effeithio ar ein gwrthrychedd a'n hannibyniaeth yn ein barn ni.

# Atodiad 1

## Llythyr Sylwadau Terfynol

Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru

Ffordd Salesbury,

Parc Busnes Llanelwy,

Llanelwy,

Sir Ddinbych,

LL17 0JJ

Archwilydd Cyffredinol Cymru

Swyddfa Archwilio Cymru

24 Heol y Gadeirlan

Caerdydd

CF11 9LJ

17 Medi 2018

## Sylwadau ar ddatganiadau ariannol 2017-18

Darperir y llythyr hwn mewn perthynas â'ch archwiliad o ddatganiadau ariannol Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2018 er mwyn mynegi barn ar ba mor wir a theg ydynt, ac i ba raddau y maent wedi'u paratoi'n briodol.

Rydym yn cadarnhau hyd eithaf ein gwybodaeth a'n cred, ar ôl cynnal ymchwiliadau a oedd yn ddigonol yn ein barn ni, y gallwn wneud y sylwadau canlynol i chi.

## Sylwadau rheolwyr

### Cyfrifoldebau

Rydym wedi cyflawni ein cyfrifoldebau o ran y canlynol:

- paratoi'r datganiadau ariannol yn unol â gofynion deddfwriaethol a'r cod ymarfer ar gyfrifyddu awdurdodau lleol yn y DU; yn arbennig, mae'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun gwir a theg yn unol â hynny; a
- chynllunio, gweithredu, cynnal ac adolygu trefniadau rheolaeth fewnol er mwyn atal a chanfod twyll a gwallau.

## Gwybodaeth a roddwyd

Rydym wedi rhoi'r canlynol i chi:

- Mynediad llawn i'r canlynol:
  - yr holl wybodaeth rydym yn ymwybodol ohoni sy'n berthnasol i'r broses o baratoi'r datganiadau ariannol megis llyfrau cyfrifon a dogfennaeth ategol, cofnodion cyfarfodydd a materion eraill;
  - gwybodaeth ychwanegol y gwnaethoch ofyn amdani gennym at ddiben yr archwiliad; a
  - mynediad anghyfyngedig i staff yr oedd angen cael tystiolaeth archwilio ganddynt, yn eich barn chi.
- Canlyniadau ein hasesiad o'r risg y gall y datganiadau ariannol fod wedi eu camddatgan mewn modd perthnasol o ganlyniad i dwyll.
- Ein gwybodaeth am dwyll neu dwyll a amheuir yr ydym yn ymwybodol ohono ac sy'n effeithio ar Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru ac yn ymwneud â:
  - rheolwyr;
  - cyflogeion sydd â rolau pwysig o ran rheolaeth fewnol; neu
  - eraill lle gallai'r twyll gael effaith berthnasol ar y datganiadau ariannol.
- Ein gwybodaeth am unrhyw honiadau o dwyll, neu dwyll a amheuir, sy'n effeithio ar y datganiadau ariannol a roddwyd i ni gan gyflogeion, cyn-gyflogeion, rheoleiddwyr neu eraill.
- Ein gwybodaeth am bob achos hysbys neu achos a amheuir o ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau y dylid ystyried eu heffeithiau wrth baratoi'r datganiadau ariannol.
- Manylion yr holl bartïon cysylltiedig a holl gydberthnasau a thrafodion partïon cysylltiedig rydym yn ymwybodol ohonynt.

## Sylwadau ar y datganiadau ariannol

Cofnodwyd pob trafodyn, ased a rhwymedigaeth yn y cofnodion cyfrifyddu ac fe'u hadlewyrchir yn y datganiadau ariannol.

Mae'r rhagdybiaethau arwyddocaol a ddefnyddiwyd i wneud amcangyfrifon cyfrifyddu, gan gynnwys y rheini a fesurwyd ar werth teg, yn rhesymol.

Cyfrifwyd yn briodol am gydberthnasau a thrafodion partïon cysylltiedig ac fe'u datgelwyd yn briodol.

Addaswyd ar gyfer pob digwyddiad neu datgelwyd pob digwyddiad a ddigwyddodd ar ôl y dyddiad adrodd y mae angen ei addasu neu ei ddatgelu.

Datgelwyd pob achos gwirioneddol neu bosibl hysbys o ymgyfreitha a hawliadau y dylid ystyried eu heffeithiau wrth baratoi'r datganiadau ariannol i'r archwilydd, a chyfrifwyd amdanynt a'u datgelu yn unol â'r fframwaith cyflwyno adroddiadau ariannol perthnasol.

Nid oes unrhyw gamddatganiadau perthnasol, gan gynnwys hepgoriadau, yn y datganiadau ariannol. Mae effeithiau'r camddatganiadau nas cywirwyd a nodwyd yn ystod yr archwiliad yn amherthnasol, yn unigol a gyda'i gilydd, i'r datganiadau ariannol cyfan.

Mae'r materion sy'n gysylltiedig â gweithredu Gorchymyn Cronfa Bensiwn (Cymru) y Diffoddwyr Tân (Newid) 2014 wedi cael ei drafod gyda'r rheolwyr. Mae gwaith yn cael ei gwblhau ar hyn o bryd o fewn yr Awdurdod i fynd i'r afael â materion cyfreithiol ac ariannu eraill wnaeth godi oherwydd yr oedi yn gweithredu'r Gorchymyn.

## Sylwadau gan Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru

Cydnabyddwn fod y sylwadau a wnaed gan y rheolwyr, uchod, wedi eu trafod â ni.

Cydnabyddwn ein cyfrifoldeb am baratoi datganiadau ariannol gwir a theg yn unol â'r fframwaith cyflwyno adroddiadau ariannol perthnasol. Cymeradwywyd y datganiadau ariannol gan Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru ar 17 Medi 2018.

Rydym yn cadarnhau ein bod wedi cymryd yr holl gamau y dylem fod wedi'u cymryd i sicrhau ein bod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i sicrhau bod y wybodaeth honno wedi'i throsglwyddo i chi. Rydym yn cadarnhau, hyd y gwyddom, nad oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad ydych yn ymwybodol ohoni.

| Llofnodwyd gan: | Llofnodwyd gan: |
| --- | --- |
| K Finch FCPFA | Y Cynghorydd Meirick Lloyd Davies |
| Trysorydd | Cadeirydd |
| Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru | Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru |
| Dyddiad: 17 Medi 2018 | Dyddiad: 17 Medi 2018 |

# Atodiad 2

## Adroddiad archwilio arfaethedig yr Archwilydd Cyffredinol i Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru

### Barn

Rwyf wedi archwilio datganiadau ariannol

- Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru; a
- Chyfrif Cronfa Bensiwn y Diffoddwyr Tân;

ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31ain o Fawrth 2018 o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Mae datganiadau ariannol Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn cynnwys y Datganiad Symudiad mewn Cronfeydd wrth Gefn, y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, y Fantolen, y Datganiad Llif Arian Parod a'r nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys crynodeb o bolisïau cyfrifyddu pwysig.

Mae datganiadau cyfrifyddu Cronfa Bensiwn y Diffoddwyr Tân yn cynnwys Cyfrif y Gronfa a'r Datganiad Asedau Net.

Y fframwaith adrodd ariannol a gymhwyswyd wrth eu paratoi yw'r gyfraith berthnasol a Chod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2018 sy'n seiliedig ar y Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS).

Yn fy marn i, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa ariannol Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a Chronfa Bensiwn y Diffoddwyr Tân ar 31ain o Fawrth 2018 ac o'i incwm a'i wariant ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; ac
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol â'r gofynion deddfwriaethol a'r Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2018.

#### Sail y farn

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â'r gyfraith berthnasol a'r Safonau Archwilio Rhyngwladol yn y DU (ISAs (DU)). Caiff fy nghyfrifoldebau o dan y safonau hyn eu disgrifio ymhellach yn adran cyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r adran datganiadau ariannol yn fy adroddiad. Rwy'n annibynnol ar yr Awdurdod Tân ac Achub yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU, gan gynnwys y Safon Foesegol Adrodd Ariannol, ac rwyf wedi cyflawni fy nghyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credaf fod y dystiolaeth archwilio rwyf wedi'i chael yn ddigonol ac yn briodol i ddarparu sail i'm barn.

### Casgliadau yn ymwneud â busnes gweithredol

Nid oes gennym unrhyw beth i'w nodi o ran y materion canlynol y mae Safonau Archwilio Rhyngwladol y DU yn ei gwneud yn ofynnol i ni gyflwyno adroddiad i chi arnynt os bydd yr amgylchiadau canlynol yn berthnasol:

- nid yw'r defnydd o sail gyfrifyddu busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol; neu
- nid yw'r swyddog ariannol cyfrifol wedi datgelu yn y datganiadau ariannol unrhyw ansicrwydd perthnasol a nodwyd a all fwrw amheuaeth sylweddol ar allu'r Awdurdod Tân ac Achub i barhau i fabwysiadu sail gyfrifyddu busnes gweithredol am gyfnod o ddeuddeg mis o leiaf o'r dyddiad pan awdurdodir cyhoeddi'r datganiadau ariannol.

### Gwybodaeth arall

Mae'r swyddog ariannol cyfrifyddu yn gyfrifol am y wybodaeth arall yn yr adroddiad blynyddol a chyfrifon. Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys y wybodaeth yn yr adroddiad blynyddol, heblaw am y datganiadau ariannol a'm hadroddiad fel archwilydd arnynt. Nid yw fy marn am y datganiadau ariannol yn cwmpasu'r wybodaeth arall ac, ar wahân i'r graddau a nodir yn benodol yn ddiweddarach yn fy adroddiad, nid wyf yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sicrwydd ar hynny.

Mewn cysylltiad â'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol, fy nghyfrifoldeb yw darllen y wybodaeth arall er mwyn nodi anghysondebau perthnasol â'r datganiadau ariannol archwiliedig a nodi unrhyw wybodaeth sy'n ymddangos fel petai'n berthnasol anghywir ar sail y wybodaeth a ddaeth i law wrth i mi gyflawni'r archwiliad neu sy'n berthnasol anghyson â'r wybodaeth honno. Os dof yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau neu anghysondebau perthnasol amlwg, ystyriaf y goblygiadau i'm hadroddiad.

## Adrodd ar ofynion eraill

### Barn ar faterion eraill

Yn fy marn i, yn seiliedig ar y gwaith a wnaed yn ystod fy archwiliad:

- mae'r wybodaeth yn yr Adroddiad Naratif ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol ac mae'r Adroddiad Naratif wedi ei baratoi yn unol â Chod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2018;
- Mae'r wybodaeth a roddwyd yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol ac mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol wedi'i baratoi yn unol â chanllawiau.

### Materion y cyflwynaf adroddiad arnynt drwy eithriad

Yn sgil gwybodaeth a dealltwriaeth o'r Awdurdod Tân ac Achub a'i amgylchedd a gafwyd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi nodi camddatganiadau perthnasol yn yr Adroddiad Naratif nac yn y Datganiad Llywodraethu.

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w nodi o ran y materion canlynol, y cyflwynaf adroddiad i chi arnynt os bydd yr amgylchiadau canlynol yn berthnasol, yn fy marn i:

- ni chadwyd cofnodion cyfrifyddu digonol;
- nid yw'r datganiadau ariannol yn cyd-fynd â'r cofnodion cyfrifyddu a'r ffurflenni; neu
- nid wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth ac esboniadau sydd eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad.

## Tystysgrif cwblhau archwiliad

Rwyf wedi cwblhau'r archwiliad o gyfrifon Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn unol â gofynion Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a Chod Ymarfer Archwilio Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Ni allai'r archwiliad gau yn ffurfiol nac tystysgrif archwilio ei gyhoeddi nes fy mod wedi cwblhau cysidro'r materion sy'n gysylltiedig â Chronfa Bensiwn y Diffoddwyr Tân. Rwyf yn fodlon nad yw'r materion hyn yn cael effaith materol ar y datganiadau ariannol.

## Cyfrifoldebau

### Cyfrifoldebau'r swyddog ariannol cyfrifol am y datganiadau ariannol

Fel yr eglurir yn fanylach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau ar gyfer y Datganiad o Gyfrifon a nodir ar dudalennau 14 i 16, mae'r swyddog ariannol cyfrifol yn gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol sy'n rhoi darlun gwir a theg ac am y fath reolaeth fewnol ag sy'n angenrheidiol ym marn y swyddog ariannol cyfrifol i allu paratoi datganiadau o gyfrifon sy'n rhydd o gamddatganiadau perthnasol, boed hynny drwy dwyll neu wall.

Wrth baratoi'r datganiad o gyfrifon, mae'r swyddog ariannol cyfrifol yn gyfrifol am asesu gallu'r Awdurdod Tân ac Achub i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu fel y bo'n gymwys, faterion yn ymwneud â busnes gweithredol a defnyddio sail gyfrifyddu busnes gweithredol oni thybir nad yw hynny'n briodol.

### Cyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol

Fy amcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch p'un a yw'r datganiadau ariannol gyda'i gilydd yn rhydd o gamddatganiad perthnasol, boed hynny drwy dwyll neu wall, a chyhoeddi adroddiad yr archwilwyr sy'n cynnwys fy marn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n gwarantu y bydd archwiliad a gynhelir yn unol â Safonau Archwilio Rhyngwladol y DU bob amser yn canfod camddatganiad perthnasol pan fo'n bodoli. Gall camddatganiadau ddeillio o dwyll neu wall ac fe'u hystyrir yn berthnasol os,

yn unigol neu gyda'i gilydd, y gellid disgwyl iddynt yn rhesymol ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wneir ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Ceir disgrifiad pellach o gyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol yn www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o'm hadroddiad archwilio.

| | |
|---|---|
| Anthony J Barrett | 24 Heol y Gadeirlan |
| Dros ac ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru | Caerdydd |
| 20 Medi 2018 | CF11 9LJ |

# Atodiad 3

## Crynodeb o’r cywiriadau a wnaed i’r datganiadau ariannol drafft y dylid tynnu sylw Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru atynt

Yn ystod ein harchwiliad, gwnaethom nodi’r camddatganiadau canlynol a gywirwyd gan y rheolwyr, ond yr ystyriwn y dylid tynnu eich sylw atynt gan eu bod yn berthnasol i’ch cyfrifoldebau mewn perthynas â’r broses o gyflwyno adroddiadau ariannol. Mae’r addasiadau sydd ddim yn effeithio ar sefyllfa refeniw net yr Awdurdod ar y 31ain o Fawrth 2018 yn angenrheidiol er mwyn sicrhau bod datganiadau ariannol yr Awdurdod yn cydymffurfio â gofynion adrodd statudol.

Arddangosyn 3: crynodeb o’r cywiriadau a wnaed i’r datganiadau ariannol drafft

| Gwerth y cywiriad | Natur y cywiriad | Rheswm dros y cywiriad |
|---|---|---|
| Nifer | **Datganiad Cynhwysfawr ar Incwm a Gwariant, Datganiad ar y Symudiad mewn Cronfeydd a Datganiad Llif Arian**<br>Cymaryddion 2016/17 wedi eu cam-ddatgan | Er mwyn adlewyrchu’r datganiadau ariannol archwilwyd yn 2016/17 |
| £6,951,000<br>£Dim effaith cyfangwbl ar gyfanswm y DSMC | **Nodyn 7 Addasiad rhwng Sail Cyfrifyddu a Chyllido dan Reoliadau**<br>Roedd yr addasiadau oedd yn ymwneud yn bennaf â’r Gronfa Bensiwn wedi eu cam-ddatgan | Er mwyn cydymffurfio gyda’r Cod Ymarfer |
| £558,000 | **Nodyn 9 Gwariant ac Incwm Gweithredu Eraill**<br>Roedd derbyniadau gwaredu asedion wedi cael eu cam-ddatgan fel elw gwaredu asedion oherwydd nad oedd gwerth llyfr net yr asedion oedd wedi cael eu gwaredu wedi cael ei ystyried. | Er mwyn cydymffurfio gyda’r Cod Ymarfer |
| £803,000 | **Nodyn 9 Gwariant ac Incwm Gweithredu Eraill**<br>Roedd y symudiad o fewn y gronfa grant (£803,000) wedi cael ei drin yn anghywir fel cyfraniad refeniw | Er mwyn cydymffurfio gyda’r Cod Ymarfer |
| £147,000 | **Nodyn 12 Eiddo, Peiriannau ac Offer**<br>Roedd tir oedd wedi cael ei waredu yn y flwyddyn wedi cael ei ddosbarthu yn anghywir fel asedau a ddelir i’w gwerthu | Er mwyn sicrhau dosbarthiad cywir o asedau |

| Gwerth y cywiriad | Natur y cywiriad | Rheswm dros y cywiriad |
|---|---|---|
| £609,000 | **Nodyn 12 Eiddo, Peiriannau ac Offer**<br>Roedd asedion oedd dal yn berchen i'r Awdurdod wedi cael eu gwaredu yn anghywir oddi ar y gofrestr asedion | Nid oedd yr asedion wedi cael eu gwaredu |
| £192,000 | **Nodyn 12 Eiddo, Peiriannau ac Offer**<br>Roedd asedion anniriaethol, a waredwyd yn y flwyddyn, wedi cael eu cam-ddosbarthu fel Cerbydau ac Offer | Er mwyn datgan yn gywir asedion a'u symudiad yn unol â'r Cod Ymarfer |
| £1,515,000 (tymor hir)<br>£16,000 (tymor byr) | **Nodyn 13 Offerynnau Ariannol**<br>Doedd y nodyn ddim yn datgan y balansau cywir ar gyfer benthyciadau nac yn cytuno gyda'r balansau yn y Fantolen | Er mwyn sicrhau bod y nodyn datgan yn cytuno yn ôl i'r fantolen |
| £129,000 | **Nodyn 13 Offerynnau Ariannol**<br>Nid oedd benthyciadau wedi'w datgan fel cost wedi'w amorteiddio (h.y. cost a llog cronnedig) oherwydd bod llog cronnedig wedi cael ei gyfir o fewn credydwyr | Er mwyn datgan benthyciadau yn gywir fel cost yn cynnwys llog cronnedig<br>Roedd hwn hefyd yn wall yn 2016/17 |
| £6,704,000 | **Nodyn 21 Cronfa Bensiwn**<br>Doedd gwrthdroi yr eitemau oedd yn perthyn i fuddion ymddeol a chyfraniadau pensiwn cyflogwyr a wnaethpwyd yn y nodyn hwn ddim yn adlewyrchu y wybodaeth ddarparwyd gan yr actwari nac ychwaith gwybodaeth y gyflogres | Er mwyn cyfrif yn gywir am y symudiad yn y gronfa bensiwn |
| Nifer | **Nodyn 22,23 a 24 o'r Datganiad Llif Arian – Gweithgareddau Gweithredu, Buddsoddi ac Ariannu**<br>Roedd rhaid ail-ddatgan y datganiadau yma droeon oherwydd bod nifer o'r cofnodion unai wedi cael eu cyfrifo yn anghywir neu wedi cael eu cynnwys yn anghywir. | Er mwyn sicrhau bod y Datganiad Llif Arian yn cydymffurfio gyda'r Cod Ymarfer |
| £25,355 | **Nodyn 27 Taliadau Swyddogion**<br>Roedd Cymhorthydd Prif Swyddog wedi cael ei hepgor o'r nodyn yn anghywir | Er mwyn sicrhau bod y nodyn taliadau wedi cael ei ddatgan yn gwir |
| £1,809 | **Nodyn 27 Taliadau Swyddogion**<br>Roedd taliadau y Trysorydd wedi cael eu gorddatgan yn anghywir | Er mwyn sicrhau bod y nodyn taliadau wedi cael ei ddatgan yn gwir |
| Nifer | **Nodyn 27 Taliadau Swyddogion**<br>Roedd y datganiadau budd heb fod yn arian, sydd yn isel mewn gwerth, wedi | Er mwyn sicrhau bod y nodyn taliadau wedi cael ei ddatgan yn gwir |

| Gwerth y cywiriad | Natur y cywiriad | Rheswm dros y cywiriad |
|---|---|---|
| | cael eu cam-ddatgan ar gyfer 5 prif swyddog | |
| £3,711,000 yn 2017/18<br>£1,875,000 yn 2016/17 | **Nodyn 29 Grantiau**<br>Sefydlwyd bod statws y trefniant ar gyfer gweinyddu grantiau Cymru gyfan gan ATA Gogledd Cymru yn un o natur asiantaeth. O ganlyniad, mae'r symiau hyn nawr wedi cael eu tynnu allan o incwm a gwariant yr Awdurdod. | Er mwyn cyfrifo yn gywir ar gyfer trefniant asiantaeth |
| £3,935,000 | **Nodyn 30 Gwasanaeth Asiantaeth**<br>Nodyn wedi ei ychwanegu er mwyn adlewyrchu gwasanaethau asiantaeth | Er mwyn cydymffurfio gyda'r Cod Ymarfer |
| £116,000 | **Nodyn 33 Prydlesi**<br>Roedd gwerth y prydlesi cyllid wedi cael eu cam-ddatgan | Er mwyn datgan y swm cywir |
| £Nifer | **Nodyn 35 – Trafodion yn ymwneud â buddion ôl-gyflogaeth**<br>Ail-ddatgan niferus o'r trafodion oedd yn ymwneud â buddianau ymddeol oedd yn cael eu cydnabod yn y cyfrifon, er mwyn datgan yn gywir y wybodaeth pensiwn a ddarparwyd gan yr actiwari | Er mwyn cydymffurfio gyda'r Cod Ymarfer |
| Amrywiol | Fe wnaethpwyd nifer o welliannau oedd yn llai na materol, naratif a chyflwyniad i'r datganiadau ariannol. Y datganiadau cafwyd eu heffeithio oedd:<br>Adroddiad Naratif<br>Datganiad Cynhwysfawr ar Incwm a Gwariant<br>Y Fantolen<br>Nodyn 3 Eitemau Pwysig o Incwm a Gwariant<br>Nodyn 5 Nodyn I'r Dadansoddiad o Wariant a Chyllid<br>Nodyn 6 Dadansoddiad Manwl o Wariant ac Incwm<br>Nodyn 12 Eiddo, Peiriannau ac Offer<br>Nodyn 20 Cronfeydd Defnyddiadwy<br>Nodyn 21 Cyfrif Addasu Cyfalaf<br>Nodyn 27 Taliadau Swyddogion<br>Nodyn 32 Gwariant ac Ariannu Cyfalaf<br>Nodyn 35 Trafodion yn ymwneud â buddion ôl-gyflogaeth | |

| Gwerth y cywiriad | Natur y cywiriad | Rheswm dros y cywiriad |
|---|---|---|
| | Nodyn 38 Safonau Cyfrifyddu sydd wedi cael eu cyhoeddi ond heb eu mabwysiadu<br>Polisïau Cyfrifyddu | |
| Naratif | **Datganiad Llywodraethu Blynyddol**<br>Fe wnaethpwyd nifer o newidiadau i'r DLlB er mwyn adlewyrchu trefniadau yr Awdurdod Tân yn well. | Er mwyn gwella cynnwys y Datganiad Llywodraethu |

# Atodiad 4

## Argymhellion sy’n deillio o’n gwaith archwilio ariannol ar gyfer 2017-18

Amlinellwn ein hargymhellion sy’n deillio o’n harchwiliad ynghyd ag ymateb y rheolwyr iddynt. Byddwn yn gwneud gwaith dilynol ar y rhain y flwyddyn nesaf, gan gynnwys unrhyw faterion sy’n weddill yn adroddiad archwilio’r flwyddyn nesaf:

Arddangosyn 4: mater yn codi 1

| **Mater yn codi 1 – gwybodaeth ariannol ac anariannol annigonol yn cael ei dal yn y gofrestr asedau** | |
|---|---|
| **Canfyddiadau** | Nid yw’r gofrestr asedau yn dal digon o wybodaeth ariannol ac anariannol, cyfredol a hanesyddol, i ategu cofnodion cyfrifyddu. |
| **Blaenoriaeth** | Uchel |
| **Argymhelliad** | Dylai’r Awdurdod ddiwygio ei gofrestr asedau er mwyn sicrhau ei bod yn cynnwys yr holl wybodaeth berthnasol. Dylai’r Awdurdod hefyd ystyried defnyddio system fwy ffurfiol ar gyfer ei gofrestr asedau. |
| **Buddiannau gweithredu’r argymhelliad** | Sicrhau bod y cofnodion cyfrifyddu angenrheidiol yn cael eu cadarnhau’n hawdd a’u hategu gan gofnodion sylfaenol. |
| **Derbyniwyd yn llawn gan y rheolwyr** | Rhannol |
| **Ymateb rheolwyr** | Fe wnawn ni weithio gyda Swyddfa Archwilio Cymru er mwyn deallt yn well y gofynion archwilio er mwyn sicrhau bod trywydd archwilio cynhwysfawr yn cael ei sefydlu. Fe fydd hyn yn cynnwys ystyriaeth ddigonol o gostau ariannol a buddion sy’n gysylltieig â phrynnu Cofrestr Asedion penodedig. |
| **Dyddiad gweithredu** | Mawrth 2019 |

Arddangosyn 5: mater yn codi 2

| **Mater yn codi 2 – dadansoddiad annigonol o gyfarpar unigol ac asedau TG yn y gofrestr asedau** | |
|---|---|
| **Canfyddiadau** | Ni chaiff asedau cyfarpar nac asedau TG, a brynwyd cyn 2017-18, eu cofnodi yn y gofrestr asedau yn ddigon manwl i sicrhau y gellir adnabod asedau unigol, neu grwpiau o asedau. |
| **Blaenoriaeth** | Uchel |

| Mater yn codi 2 – dadansoddiad annigonol o gyfarpar unigol ac asedau TG yn y gofrestr asedau | |
|---|---|
| **Argymhelliad** | Dylai'r Awdurdod ddiwygio ei gofrestr asedau i gynnwys asedau ar lefel unigol neu grŵp, er mwyn sicrhau y gellir eu hadnabod yn hawdd a sicrhau bod y gofrestr asedau yn gyson â'r cofnodion adrannol. |
| **Buddiannau gweithredu'r argymhelliad** | Sicrhau bod y gofrestr asedau, ac felly'r datganiadau ariannol, yn adlewyrchu'r asedau a ddelir gan yr Awdurdod yn gywir. |
| **Derbyniwyd yn llawn gan y rheolwyr** | Na |
| **Ymateb rheolwyr** | Mae'r gofrestr asedion yn cofnodi yn ei gyfanrwydd gwariant cyfalaf, gall wedyn ei olrhain a'i gytuno i asedion unigol. Fe wnaeth y broses a ddefnyddiwyd yn 2017/18 gael ei ddiwygio i gyd-fynd gydag argymhellion blaenorol ond fe wnaeth penderfyniad oedd wedi ei selio ar risg ddod i'r casgliad nad oedd angen cwblhau adolygiad ôl-edrychol. Fe gaiff waith ei gwblhau o fewn yr Awdurdod er mwyn cysidro sicrwydd dros fodolaeth asedion sydd wedi cael eu dibrisio yn llawn. |
| **Dyddiad gweithredu** | Ddim yn berthnasol |

Arddangosyn 6: mater yn codi 3

| Mater yn codi 3 – ni chyfrifwyd am waredu asedau yn gywir | |
|---|---|
| **Canfyddiadau** | Mae'r Awdurdod wedi cyflymu'r broses o ddibrisio asedau yn ystod y flwyddyn waredu, a hynny'n anghywir, ac wedi cydnabod enillion fel ennill o waredu. |
| **Blaenoriaeth** | Canolig |
| **Argymhelliad** | Dylai'r Awdurdod gyfrif am waredu asedau yn unol â'r Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Llywodraeth Leol. |
| **Buddiannau gweithredu'r argymhelliad** | Sicrhau y cyfrifir am enillion/colledion o waredu'n gywir a'u bod yn cael eu cydnabod yn y datganiadau ariannol yn gywir. |
| **Derbyniwyd yn llawn gan y rheolwyr** | Do |
| **Ymateb rheolwyr** | Fe gaiff y prosesau cyfrifyddu eu diwygio er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio yn gyfan gwbl gyda'r Cod Ymarfer. |
| **Dyddiad gweithredu** | Mawrth 2019 |

Arddangosyn 7: mater yn codi 4

| Mater yn codi 4 – roedd y ddatganiadau craidd yn cynnwys addasiadau amherthnasol er mwyn sicrhau eu bod yn mantoli | |
|---|---|
| **Canfyddiadau** | Roedd datganiadau llif arian parod a symudiad mewn cronfeydd wrth gefn yr Awdurdod yn cynnwys addasiadau oedd yn amherthnasoler mwyn sicrhau eu bod yn matoli. Oherwydd hyn, doedd y datganiadau craidd ddim rhoi sicrwydd ynglŷn â chywirdeb cyffredinol y datganiadau ariannol. |
| **Blaenoriaeth** | Uchel |
| **Argymhelliad** | Dylai'r Awdurdod baratoi'r datganiadau yn unol â'r Cod Ymarfer. |
| **Buddiannau gweithredu'r argymhelliad** | Sicrhau cywirdeb y datganiadau cyffredinol. |
| **Derbyniwyd yn llawn gan y rheolwyr** | Do |
| **Ymateb rheolwyr** | Fe wnawn adolygiad o'r broses |
| **Dyddiad gweithredu** | Mawrth 2019 |

Arddangosyn 8: mater yn codi 5

| Mater yn codi 5 – rheolir incwm a gwariant grant yn amhriodol y tu allan i'r cyfrif refeniw | |
|---|---|
| **Canfyddiadau** | Rheolir incwm a gwariant grant yng nghyfrifon daliannol y fantolen ac fe'u trosglwyddir i'r cyfrif refeniw ar ddiwedd y flwyddyn. Mae hyn yn eu cymhlethu'n ddiangen, yn dyblygu gwaith ac yn cynyddu'r risg o wallau. |
| **Blaenoriaeth** | Uchel |
| **Argymhelliad** | Dylai'r Awdurdod bennu codau refeniw priodol er mwyn cyfrif am incwm a gwariant grant yn gywir. |
| **Buddiannau gweithredu'r argymhelliad** | Sicrhau bod y datganiadau ariannol yn cofnodi gweithgareddau grant mewn perthynas â'r flwyddyn ariannol yn gywir. |
| **Derbyniwyd yn llawn gan y rheolwyr** | Do |
| **Ymateb rheolwyr** | Fe wnaiff y Cymhorthydd Prif Swyddog (Cyllid ac Adnoddau) arwain ar adolygiad llawn ar y mater. |
| **Dyddiad gweithredu** | Mawrth 2019 |

Arddangosyn 9: mater yn codi 6

| **Mater yn codi 6 – mae angen gwella'r papurau gwaith gryn dipyn ac nid oeddent ar gael yn hwylus ar ddechrau'r archwiliad** | |
|---|---|
| **Canfyddiadau** | Roedd y papurau gwaith a oedd yn ategu'r datganiadau ariannol yn wael ac roedd angen eu hesbonio. Mae'n hanfodol bod y papurau gwaith yn cael eu gwella er mwyn rhoi trywydd archwilio clir a dealladwy rhwng y cyfriflyfr ariannol a'r datganiadau cyfrifyddu.<br>Hefyd, nid oedd y papurau gwaith ar gael yn hwylus ynghyd â'r datganiadau drafft a chawsant eu darparu bob yn dipyn ar gais. |
| **Blaenoriaeth** | Uchel |
| **Argymhelliad** | Dylai'r Awdurdod baratoi papurau gwaith o ansawdd da sy'n ategu'r datganiadau ariannol yn glir ac sy'n hunanesboniadol i rywun sy'n gyfarwydd â chyfrifyddu. Mae'n rhaid i'r papurau gwaith fod ar gael, ochr yn ochr â'r datganiadau ariannol drafft, ar ddechrau'r archwiliad. |
| **Buddiannau gweithredu'r argymhelliad** | Darparu papurau gwaith clir a dealladwy er mwyn ategu'r datganiadau ariannol mewn modd amserol. Bydd hyn yn rhoi trywydd archwilio clir i swyddogion ac archwilwyr. |
| **Derbyniwyd yn llawn gan y rheolwyr** | Do |
| **Ymateb rheolwyr** | Fe fydd datblygiad papurau gwaith yn nodwedd allweddol o drefniadau cau lawr y dyfodol, er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth lawn gyda'r amserlen ddiwygiedig ar gyfer cynhyrchu'r cyfrifon. |
| **Dyddiad gweithredu** | Mawrth 2019 |

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru